

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL SEILWAITH DARPARIAETHAU AR GYFER RHEOLI RHYWOGAETHAU ESTRON GOESGYNNOL

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn wedi'i osod dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29.2 yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod ac y gall Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Seilwaith ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 5 Mehefin 2014. Mae'r Bil i'w weld yn:
<http://services.parliament.uk/bills/2014-15/infrastructure.html>.

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Mae'r Bil wedi'i noddi gan yr Adran Drafnidiaeth. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw annog buddsoddiad mewn seilwaith drwy alluogi cyllid hirdymor sefydlog, darparu gwerth gwell am arian a lliniaru pwysau gweinyddol diangen. Nod y Bil yw gwella tryloywder prosesau darparu gwybodaeth a gwella prosesau cynllunio.
4. Ceir 5 Rhan i'r Bil:
 - Rhan 1 ac Atodlenni 1 i 3 i wneud darpariaeth ar gyfer penodi "cwmnïau priffordd strategol" i reoli ffyrdd strategol yn Lloegr yn lle'r Asiantaeth Priffyrdd.
 - Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol drwy gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau a materion cysylltiedig.
 - Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd, cyflawniad tybiedig amodau cynllunio a'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau a chyrff eraill. Mae'r Rhan honno ochr yn ochr ag Atodlen 4 hefyd yn gwneud darpariaeth i'r Gofrestrfa Tir gymryd cyfrifoldeb am gofrestru pridiannau tir lleol a chael pwerau ehangach i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau cofrestru yn ymwneud â thir ac eiddo arall.
 - Mae Rhan 4 ac Atodlen 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl trydan cymunedol a fydd, os caiff ei harfer, yn rhoi hawl i unigolion sy'n byw mewn cymuned, neu grwpiau sy'n gysylltiedig â chymuned, brynu cyfran mewn datblygiad trydan adnewyddadwy yn y gymuned neu'r cyffiniau.
 - Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n berthnasol i'r Bil yn ei gyfanrwydd.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

Rhan 2, Cymal 16: Rhywogaethau Estron Goresgynol

5. Mae Rhan 2, Cymal 16 yn mewnosod is-adran newydd 14(4A) yn Neddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (“Deddf 1981”) yn darparu ar gyfer mesurau yn ymwneud â chytundebau rheoli rhywogaethau a gorchmynion rheoli rhywogaethau i’w cynnwys mewn Atodlen 9A newydd i Ddeddf 1981.
6. Bydd Cymal 16, os caiff ei wneud yn gyfraith, yn caniatáu i awdurdodau amgylcheddol penodol weithredu i waredu neu reoli rhywogaethau estron goresgynol (“RhEG”) sy’n peri bygythiadau difrifol i fioamrywiaeth, buddiannau amgylcheddol eraill neu fuddiannau cymdeithasol neu economaidd.
7. Mae’r darpariaethau’n seiliedig ar adroddiad Comisiwn y Gyfraith, “Wildlife Law, Control of Invasive Species”, a argraffwyd ar 10 Chwefror 2014: <http://lawcommission.justice.gov.uk/publications/2612.htm>
8. Crynhoir darpariaethau Atodlen 9A isod:
 - Gall yr “awdurdod amgylcheddol” yng Nghymru, hynny yw Cyfoeth Naturiol Cymru neu Weinidogion Cymru, ymrwymo i gytundeb, cytundeb rheoli rhywogaethau, gyda pherchennog unrhyw safle lle ystyrir bod RhEG yn bresennol. Bydd y cytundeb yn nodi gweithrediadau y mae angen eu cynnal i fynd i’r afael â RhEG a gall fanylu ar daliadau i’w gwneud mewn perthynas â chostau’r gweithrediadau.
 - Cyn cyflwyno cytundeb rhaid i’r awdurdod amgylcheddol ystyried cymesuredd cytundeb arfaethedig.
 - Os, ar ôl 42 diwrnod, nad oes cytundeb wedi’i wneud, bod perchennog yn gwrthod ymrwymo i gytundeb, nas cydymffurfiwyd â thelerau cytundeb, neu nad oes perchennog wedi’i nodi ar gyfer y safle, gall yr awdurdod amgylcheddol gyhoeddi gorchymyn rheoli rhywogaeth;
 - Dan amgylchiadau eithriadol, gall yr awdurdod amgylcheddol gyhoeddi gorchymyn rheoli rhywogaeth mewn argyfwng heb gynnig cytundeb rheoli rhywogaeth yn y lle cyntaf;
 - Cyn gwneud gorchymyn rhaid i’r awdurdod amgylcheddol ystyried cymesuredd y gorchymyn arfaethedig;
 - Rhaid i orchymyn nodi ei bod yn ofynnol i berchennog gymryd camau i ddileu, rheoli neu atal RhEG, neu fod awdurdod amgylcheddol yn cynnig gwneud hynny, neu, mewn rhai achosion, y ddau.
 - Yng Nghymru, dim ond Gweinidogion Cymru (a’r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr) all wneud cytundeb neu orchymyn sy’n ymwneud â safleoedd sy’n cynnwys annedd.
 - Gall perchennog y safle yr effeithir arno gyflwyno apêl i’r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Amgylchedd).
 - Oni chydymffurfir â gorchymyn, bydd gan yr awdurdod amgylcheddol y pwerau i gwblhau’r gweithrediadau ei hun.

- Bydd yn drosedd i fethu â chydymffurfio â gorchymyn, heb esgus rhesymol, neu rwystro person rhag cyflawni gweithred sy'n ofynnol neu a gynigir dan orchymyn yn fwriadol.
 - Darperir pwerau mynediad mewn perthynas â phennu, archwilio a gorfodi cytundebau a gorchmynion. Dan rai amgylchiadau, a ddisgrifir ym mharagraff 20(1), rhaid i fynediad i eiddo gael ei awdurdodi drwy warant.
 - Gall iawndal fod yn daladwy i'r tiffeddiannwr am unrhyw golled ariannol.
 - Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â gweinyddu a chwmpas cytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru cyn cyhoeddi, adolygu neu ddisodli'r cod, a rhaid i'r cod gael ei gyhoeddi'n briodol.
9. Bwriad y polisi yw i'r pwerau hyn gael eu defnyddio dan amgylchiadau eithriadol lle na ellir cytuno ar ddull gweithredu gwirfoddol a bod bygythiad clir a sylweddol o beidio â gweithredu. Bwriedir iddynt gael eu defnyddio'n bennaf i gefnogi rhaglenni dileu cenedlaethol; byddai defnyddio'r pwerau hyn yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau eang eu gwasgariad, fel clymog Japan, yn cael ei ystyried yn amhriodol yn gyffredinol
10. Mae'r darpariaethau'n cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud yr is-ddeddfwriaeth canlynol:
- Pŵer i wneud gorchmynion rheoli rhywogaethau
 - Dyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â gweinyddu a chwmpas cytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau.
11. Nid yw pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion rheoli rhywogaethau yn amodol ar unrhyw rai o weithdrefnau'r Cynulliad.
12. Rhaid i gopi o god ymddygiad Gweinidogion Cymru gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid oes unrhyw rai o weithdrefnau eraill y Cynulliad wedi'u nodi.
13. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r ffaith eu bod yn ymwneud ag amddiffyn bioamrywiaeth a'r amgylchedd (y ddau dan baragraff 6), ansawdd dŵr (dan baragraff 19), amaethyddiaeth (dan baragraff 1), datblygiad economaidd (dan baragraff 4) a hybu iechyd (dan baragraff 9) dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

14. Mae RhEG yn peri bygythiadau difrifol i fioamrywiaeth, yr amgylchedd dŵr, ffyniant economaidd, iechyd dynol a lles. Nodwyd yn ddiweddar fod yr effaith economaidd yn y DU yn o leiaf £1.8 biliwn y flwyddyn, sy'n cynnwys £1 biliwn yn y sectorau amaethyddol a garddwriaethol a dros £200m yn y sectorau adeiladu, datblygu a seilwaith. Mae dileu RhEG ar gam cynnar yn hanfodol. Gan nad yw RhEG yn cadw at ffiniau, mae Cymru'n cydweithio â

gweddill y DU i sicrhau bod RhEG yn cael eu rheoli mor effeithiol â phosibl ledled Prydain.

15. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith ddull gweithredu o ran cytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau yng Nghymru a Lloegr sy'n debyg i'r hyn sydd ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd. Mae'r model ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol a nodir yn y Bil wedi'i lywio'n bennaf gan argymhelliad Comisiwn y Gyfraith.
16. Un o gydrannau allweddol Rheoliad drafft yr Undeb Ewropeaidd ar atal a rheoli cyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol ("Rheoliad yr UE"), y cynigir iddo ddod i rym ar 1 Ionawr 2015 yn amodol ar archwiliad gan y Cyngor a'r Senedd, yw y dylai Aelod-wladwriaethau gymryd camau i ddileu rhywogaethau newydd sydd o bryder i'r UE o fewn tri mis o'u canfod. Mae diffyg pwerau o'r fath yn ein rhoi mewn sefyllfa wan o ran bioddiogelwch a gall danseilio ein gallu i gyflawni ein rhwymedigaethau dan Reoliad yr UE yn y dyfodol. Caiff y Rheoliad arfaethedig ei archwilio gan y Cyngor a'r Senedd yn y dyfodol agos. Disgwylir iddo gael ei gymeradwyo, ond nid yw eu penderfyniad terfynol yn hysbys ar adeg drafftio'r memorandwm hwn.
17. Mae angen cyflwyno'r cynnig penodol hwn gan Gomisiwn y Gyfraith o ran rheoli RhEG ar frys gan eu bod yn effeithio'n andwyol ar iechyd a lles dynol, yr amgylchedd dŵr, bioamrywiaeth a'r economi. At hynny, gallai cytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau newydd helpu i fodloni elfennau allweddol o Reoliad yr UE. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn briodol i ddelio â'r darpariaethau hyn yn y Bil gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf amserol, ymarferol a chymesur o alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn berthnasol mewn perthynas â Chymru.

Goblygiadau ariannol

18. Bwriedir i'r pwerau gael eu defnyddio'n bennaf mewn rhaglenni dileu cenedlaethol neu ranbarthol ar ôl i ddull gweithredu gwirfoddol fethu. Caiff rhaglenni dileu cenedlaethol neu ranbarthol fel arfer eu hariannu gan y llywodraeth. Fodd bynnag, yng Nghymru nid oes cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol felly byddai angen ystyried adnoddau a chyllidebau fesul achos. Mewn sefyllfaoedd lle bo tiffeddiannwr yn gyfrifol am ryddhau rhywogaeth oresgynnol, disgwylir i'r tiffeddiannwr fod yn atebol am y costau. Bydd y pwerau'n galluogi i gamau gael eu cymryd ar gam cynnar ac, yn hyn o beth, maent wedi'u dylunio i leihau'r costau cynyddol i'r economi mewn perthynas â rheoli rhywogaethau goresgynnol yn barhaus a diogelu ein bioamrywiaeth frodorol.

Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Mehefin 2014